# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-12-10 : Papur 3**

## Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ymchwiliad yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig: Lles Anifeiliaid a Hylendid Ci - Medi 2010

### Crynodeb Gweithredol

Croesawaf adroddiad y Pwyllgor ar ei Ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig. Mae gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, yn rhinwedd ei rôl fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), ddiddordeb yn yr adroddiad hwn o safbwynt iechyd y cyhoedd. O ran y cynigion hyn, teimla'r Dirprwy Weinidog ei bod yn hanfodol sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu a'i warchod ac nad yw'n wynebu unrhyw risg yn sgil datblygiadau o ran archwiliadau hylendid bwyd. Fel y Gweinidog dros Faterion Gwledig, cytunaf â'r farn honno ond mae ystyriaethau ehangach gan gynnwys yr effeithiau ar y diwydiant cig a'r anawsterau arbennig y gallai lladd-dai gwledig eu hwynebu o ran cystadleuaeth deg. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cyfrannu'n sylweddol at yr ymateb hwn gan mai hi sy'n bennaf gyfrifol am faterion yn ymwneud â diogelwch bwyd.

Mae fy swyddogion wrthi'n arwain y gwaith o gyflwyno Rheoliadau newydd y Comisiwn Ewropeaidd a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2013 (1099/2009 ynghylch amddiffyn anifeiliaid ar yr adeg y cânt eu lladd). Mae'r Rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weithredwyr Busnesau Bwyd ganolbwyntio ar les anifeiliaid. Bydd y Rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i Weithredwyr Busnesau Bwyd dderbyn rhagor o gyfrifoldeb ond bydd gwaith archwilio ac arolygu yn mynd rhagddo o hyd. Caiff y Rheoliad newydd ei weithredu ar sail asesiad sy'n seiliedig ar risg.

Mae'r Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig wedi gwneud cyfanswm o 8 o argymhellion ac amlinellir isod yr ymateb i bob un ohonynt:

**Argymhelliad 1:** Cred y Pwyllgor y dylid edrych eto ar y model cyflogi milfeddygon ar gontract, ac ystyried y posibilrwydd o newid i drefn lle caiff milfeddygon eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi pwysau ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd i edrych eto ar y mater hwn drwy gyfrwng adolygiad annibynnol i ystyried a fyddai modelau amgen yn darparu'r arbenigedd a'r profiad sy'n angenrheidiol ymysg milfeddygon yn well.

### Ymateb: Gwrthod

Tra bod y llywodraeth yn cytuno â'r pwyllgor ynghylch y ffaith ei bod yn bwysig sicrhau bod gennym yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol ymysg milfeddygon, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol cynnal ar hyn o bryd, o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r toriadau yn y sector cyhoeddus, adolygiad annibynnol o fodelau ar gyfer darparu Milfeddygon Swyddogol (MS).

O safbwynt iechyd y cyhoedd, mae Is-adran Diogelu Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fodlon â'r system bresennol sef y model o gyflogi milfeddygon ar gontract. Nid oes unrhyw dystiolaeth gymhellol fod y defnydd o Filfeddygon ar Gontract yn lle Milfeddygon cyflogedig wedi cael unrhyw effaith ar y modd y diogelir iechyd y cyhoedd drwy weithredu mesurau rheoli swyddogol.

**Goblygiadau Ariannol:-** Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, gan ddefnyddio ei dyraniad cyllideb presennol, sy'n talu costau'r gwasanaeth hwn. Caiff ad-daliadau eu ceisio oddi wrth y diwydiant cig.

**Argymhelliad 2:** Mae'r Pwyllgor yn annog yr Asiantaeth Safonau Bwyd i ymchwilio i ffyrdd o sicrhau mwy o effeithlonrwydd yn y ffordd y caiff y mesurau rheoli SRM a TSE eu gorfodi. Dylai hyn gynnwys dysgu am sut y caiff y mesurau rheoli eu rhoi ar waith yn aelod-wladwriaethau eraill yr UE, gan gynnwys dulliau amgen o dynnu llinyn asgwrn y cefn.

### Ymateb: Derbyn

Cred Gweinidogion Cymru y dylai SRM gael ei gofnodi gan Weithredwyr Busnesau Bwyd a'i archwilio gan yr awdurdod perthnasol. Mae cyfrifoldeb ar Adrannau'r Llywodraeth i sicrhau bod darpariaethau yn eu lle, tra bod angen i Weithredwyr Busnesau Bwyd gydymffurfio'n llwyr â'r ddeddfwriaeth bresennol, ac yn bwysicach fyth ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod yn rhaid cynnal y safonau uchel cyfredol er ei bod yn ddefnyddiol i ddysgu am ddatblygiadau technegol newydd oddi wrth Aelod-Wladwriaethau eraill yr UE.

Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cyflawni'r argymhelliad hwn, o ystyried y camau gweithredu a amlinellir isod. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn parhau i chwilio am opsiynau er mwyn cynyddu'r posibilrwydd y gellir defnyddio dulliau tynnu amgen.

Dros y tair blynedd diwethaf mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi gwella effeithlonrwydd y modd y caiff mesurau rheoli SRM a TSE eu gorfodi ac mae'n parhau i ymchwilio i ddulliau amgen o dynnu llinyn asgwrn y cefn.

Ym mis Gorffennaf 2007 cytunodd Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gyflwyno trefn archwilio ac arolygu sy'n fwy seiliedig ar risg ar gyfer mesurau rheoli SRM swyddogol mewn gwartheg a defaid o dan 30 mis oed. Cafodd y rhain eu cyflwyno'n raddol, a chawsant eu monitro ar bob cam er mwyn sicrhau bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gallu dangos nad oedd yn colli unrhyw reolaeth cyn i'r cam nesaf gael ei gyflwyno. Ym mis Mai 2009 cytunodd Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd i estyn y dull hwn i fesurau rheoli ar gyfer gwartheg 30 mis oed neu'n hyn. Cafodd y gwaith o weithredu'r cam pellach hwn o newidiadau, a oedd yn cynnwys lleihad sylweddol yn

nifer y gwiriadau o ddogfennau adnabod gwartheg, ei gwblhau ym mis Ebrill 2010.

Yn ogystal, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cydnabod bod y gofyn yn y DU i hollti carcasau defaid sydd dros 12 mis oed er mwyn cadarnhau bod holl linyn yr asgwrn cefn wedi'i waredu yn cael effaith ariannol ar y diwydiant. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wrthi'n adolygu'r polisi hwn. Mae swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi ymweld â Ffrainc a'r Iseldiroedd er mwyn gweld dulliau amgen o dynnu llinyn asgwrn y cefn y byddai modd eu defnyddio mewn sefyllfaoedd masnachol. Gwelwyd yn sgil yr ymweliad hwn y gallai rhai o'r dulliau a ddefnyddid fod yn effeithiol wrth dynnu llinyn asgwrn y cefn ond ni fyddai unrhyw un o'r dulliau yn gwarantu bod yr holl linyn wedi'i dynnu, sef yr hyn sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth yr UE.

Cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd Gyfarfod ar gyfer Rhanddeiliaid ar 11 Mehefin er mwyn trafod nifer o opsiynau o ran datblygu addasrwydd dulliau tynnu amgen yn y DU tra'n cynnal lefel uchel o gydymffurfiaeth â mesurau rheoli SRM yr UE. Cytunwyd yn y cyfarfod y byddai Grwp Gorchwyl rhwng y diwydiant a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cael ei sefydlu er mwyn trefnu a chynnal treialon o ddulliau amgen mewn rhai safleoedd yn y DU er mwyn pennu pa mor effeithiol ydynt, ac er mwyn ystyried pa fesurau rheoli y gallai fod angen eu cyflwyno o ran y defnydd ohonynt er mwyn cynnig dewis amgen cymesur ac effeithiol yn lle hollti carcasau.

**Goblygiadau Ariannol:** Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, gan ddefnyddio ei dyraniad cyllideb presennol, sy'n talu costau'r gwasanaeth hwn.

**Argymhelliad 3:** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu effaith Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ar lendid yr anifeiliaid a gyflwynir i gael eu lladd. Os yw hynny'n angenrheidiol a phriodol, dylai'r rheoliadau gael eu diwygio i roi mwy o bwerau i filfeddygon swyddogol ac archwilwyr hylendid cig i atal anifeiliaid budron rhag cael eu cyflwyno i gael eu lladd.

### Ymateb: Gwrthod

Cred Gweinidogion Cymru fod pwerau digonol yn bodoli er mwyn sicrhau na chaiff anifeiliaid budron eu cyflwyno i gael eu lladd ac er mwyn sicrhau na pheryglir iechyd y cyhoedd. O'r herwydd ni chredir bod angen cynnal adolygiad.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cytuno â'r Pwyllgor fod glendid yr anifeiliaid a gaiff eu cyflwyno i gael eu lladd yn ofyniad hanfodol a bod angen i gamau gael eu cymryd os caiff anifeiliaid budron eu cyflwyno i gael eu lladd. Serch hynny, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn fodlon fod gan ei staff bwerau digonol ar hyn o bryd i sicrhau na fydd anifeiliaid budron yn peryglu iechyd y cyhoedd, ac ni chred fod angen cynnal adolygiad.

Mae Erthygl 5 o Reoliad 852/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd (GBB) sefydlu, gweithredu a chynnal gweithdrefn barhaol yn seiliedig ar egwyddorion dadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol (HACCP), a fydd yn cynnwys pennu unrhyw beryglon (fel da byw budron) y mae'n rhaid eu hatal, eu gwaredu neu eu lleihau i lefelau derbyniol. Mae rheoliad 853/2004 yn ei gwneud yn ofynnol, yn unol ag amcanion gweithdrefnau sy'n seiliedig ar HACCP, fod pob lot o anifeiliaid a dderbynnir i ladd-dai yn lân. Mae Rheoliad 854/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Milfeddyg Swyddogol ddilysu dyletswyddau'r GBB o dan 853/2004 er mwyn sicrhau na chaiff anifeiliaid sy'n peri risg annerbyniol o halogi cig eu lladd er mwyn cael eu bwyta gan bobl oni bai y'u cymeradwyir ymlaen llaw.

Lle y mae'r Milfeddyg Swyddogol yn pennu risg o'r fath, bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r GBB gymryd camau a amlinellir yn y gweithdrefnau sy'n seiliedig ar HACCP, fel cadw anifeiliaid budron ar wellt gwely ffres, cneifio/torri, neu arafu'r broses gynhyrchu. Bydd y Milfeddyg Swyddogol yn cymryd camau gorfodi pan na fydd GBB yn cydymffurfio.

**Goblygiadau Ariannol:** Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, gan ddefnyddio ei dyraniad cyllideb presennol, sy'n talu costau'r gwasanaeth hwn.

**Argymhelliad 4:** Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddeddfwriaeth sy'n dod â'r Rheoliad i rym yng Nghymru yn dangos yn glir beth yw rôl swyddogion lles anifeiliaid a milfeddygon swyddogol, y naill a'r llall. Mae'r Pwyllgor yn galw hefyd ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori'n llawn â'r diwydiant cig coch ac eraill sydd â buddiant yn y maes cyn dod â'r ddeddfwriaeth gerbron.

### Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys y Diwydiant Cig a Gweithredwyr Busnesau Bwyd, ynghylch deddfwriaeth ddomestig a ddefnyddir ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) 1099/ 2009 parthed diogelu anifeiliaid adeg eu lladd a fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2013. Caiff rolau'r Swyddog Lles Anifeiliaid a'r Milfeddyg Swyddogol eu hystyried ar y cyd â'r Trefniadau Gweithredu Safonol (cyfarwyddiadau ysgrifenedig sy'n ceisio sicrhau unffurfiaeth o ran cyflawni swyddogaeth neu safon benodol).

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cydweithio'n agos â gweithgor Llywodraeth y DU a fydd yn cydweithio â'r diwydiant er mwyn diffinio a datblygu arferion da. Bydd y gwaith yma'n cynnwys sicrhau eglurder ynghylch rolau'r Milfeddyg Swyddogol a'r gofyn newydd i GBB benodi person penodol i fod yn gyfrifol am les anifeiliaid mewn lladd-dai sy'n fwy na'r lleiafswm maint a bennwyd.

**Goblygiadau Ariannol:** Caiff goblygiadau ariannol eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr ymgymerir ag ef yn ystod y broses ymgynghori ehangach.

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grwp adolygu, yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r diwydiant cig, i ystyried pa mor effeithiol y mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn cael ei gorfodi yng Nghymru. Dylai'r adolygiad ystyried pa ddiwygiadau sy'n bosibl, o fewn fframwaith deddfwriaethol presennol yr UE, i sicrhau bod y safonau lles anifeiliaid a hylendid cig uchaf yn cael eu gwireddu yn y ffordd fwyaf effeithlon.

## Ymateb:  Gwrthod

Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru na ellir cyfiawnhau adolygiad ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cyflwyno strwythur gweithredol newydd dros y 18 mis diwethaf sy'n mynd i'r afael â'r pryder hwn, ac mae'r polisi gweithredol yn parhau i gael ei ddiwygio. Mae'r gwaith yma'n cynnwys datblygu strategaeth ynghylch cydymffurfio a gorfodi.

Yn ddiweddar hefyd mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi sefydlu Grwp Rhanddeiliaid newydd ynghylch Mesurau Rheoli Cig Cyfredol ac yn y Dyfodol er mwyn ystyried yr union faterion hyn, gan gynnwys:

pennu, blaenoriaethu a datblygu newidiadau arfaethedig i ofynion cyfredol ynghylch hylendid cig, gofynion o ran TSE/SRM a/neu fesurau rheoli swyddogol cysylltiedig y mae modd eu cyflawni yn y tymor byr i'r tymor canol (1 - 3 blynedd) un ai o fewn deddfwriaeth bresennol yr UE neu, yn ddarostyngedig i gytundeb rhwng y Comisiwn Ewropeaidd/y Senedd, gyda mân newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE; a

pennu, blaenoriaethu a datblygu newidiadau arfaethedig i fesurau rheoli ynghylch hylendid bwyd a TSE/SRM er mwyn cyfrannu at waith y Comisiwn Ewropeaidd a dylanwadu arno, gan foderneiddio mesurau rheoli ar gyfer cyflawni yn y tymor hirach (5 mlynedd a mwy).

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn gwahoddiad i enwebu cynrychiolydd i fod yn rhan o'r Grwp hwn ac mae swyddogion o'r Adran Materion Gwledig bellach yn mynychu'r cyfarfodydd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn aelod o Weithgor Polisi'r DU sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith partneriaid gweithredol y diwydiant cig er mwyn adolygu'r ddeddfwriaeth gyfredol a pharatoi rheoliadau gweithredu domestig a gweithdrefnau gweithredu safonol er mwyn sicrhau cysondeb o ran dulliau gweithredu ar draws ffiniau'r DU.

**Goblygiadau Ariannol: -** Argymhelliad wedi'i wrthod - Dim goblygiadau ariannol

**Argymhelliad 6:** Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio pob cyfrwng sydd ar gael iddi i atal yr Asiantaeth Safonau Bwyd rhag rhoi trefn adennill costau'n llawn ar waith a dileu ei chymhorthdal i'r diwydiant nes bydd mecanwaith amgen i roi cymhorthdal tuag at gost mesurau rheoli wedi cael ei sefydlu.

## Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a DEFRA wedi cynnal trafodaethau cychwynnol ac adeiladol â'r Asiantaeth Safonau Bwyd ynghylch y modd y gall y diwydiant, ac yn arbennig y lladd-dai bach i ganolig yng Nghymru, gael ei ddiogelu yn y dyfodol.

Mae Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi pennu bod parhau i ddarparu cymhorthdal i'r diwydiant cig yn anghydnaws â rôl yr Asiantaeth fel corff rheoleiddio; os bydd cymhorthdal yn parhau i gael ei ddarparu dylai ddod o ffynhonnell arall. Ni ddylai'r gallu i ddiogelu defnyddwyr yn y ffordd orau bosibl rhag risg bwyd fod yn seiliedig ar amgylchiadau economaidd nac ar allu'r diwydiant cig i dalu. Mae nifer o opsiynau wedi'u datblygu er mwyn gweithredu penderfyniad y Bwrdd. Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal â swyddogion o'r Adrannau Materion Gwledig ar draws y DU, ac mae grwp ar draws y DU o randdeiliaid (sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Gymru), wrthi'n cael ei sefydlu er mwyn ystyried opsiynau ymhellach. Mewn cyfarfod rhwng Gweinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Faterion Gwledig a'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol â'r Asiantaeth Safonau Bwyd cytunwyd y byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn fuan er mwyn ystyried cymorthdaliadau'r diwydiant a threfniadau amgen i roi cymhorthdal tuag at gost mesurau rheoli.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymwybodol o'i rhwymedigaethau statudol parthed ystyried buddiannau busnesau sydd â llif isel a'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu dilyn yn sgil strategaeth Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran cydweithio â LlCC a Hybu Cig Cymru er mwyn creu trefn o godi tâl sy'n deg ar gyfer lladd-dai bach. Bydd ariannu mesurau rheoli cig y DU yn y dyfodol yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol llawn â'r diwydiant cig, rhanddeiliaid Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr defnyddwyr.

**Goblygiadau Ariannol:** - Caiff y goblygiadau ariannol eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr ymgymerir ag ef yn unol â'r broses ymgynghori.

**Argymhelliad 7:** Mae'r Pwyllgor yn  argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu mecanwaith i ddarparu cymhorthdal i'r diwydiant a fydd yn diogelu dyfodol lladd-dai bach Cymru, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu cymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint sy'n gwasanaethu marchnadoedd lleol.

## Ymateb: Derbyn

Mae trafodaethau cychwynnol eisoes wedi'u cynnal rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, DEFRA a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ynghylch sut y gallai'r diwydiant, ac yn arbennig y lladd-dai bach i ganolig (gan gynnwys y rhai yng Nghymru), gael ei ddiogelu yn y dyfodol. Newydd ddechrau y mae'r trafodaethau hyn ac maent yn parhau.  Ystyriaeth allweddol o fewn y trafodaethau hyn yw na ddylai unrhyw beth gael ei ystyried a fyddai'n amharu ar fesurau rheoli iechyd y cyhoedd.

**Goblygiadau Ariannol: -** Caiff y goblygiadau ariannol eu hystyried fel rhan o'r trafodaethau rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llywodraeth y Cynulliad, Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a DEFRA.

**Argymhelliad 8:** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatganoli'r cyfrifoldeb am orfodi deddfwriaeth lles anifeiliaid a hylendid cig mewn perthynas ag anifeiliaid sy'n cael eu lladd iddi hi, ac i ofyn am drosglwyddo pwerau oddi wrth Lywodraeth y DU pe bai adolygiad Llywodraeth Cymru yn canfod y byddai symudiad o'r fath yn fanteisiol.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn mewn egwyddor yr alwad i ystyried posibilrwydd datganoli'r cyfrifoldeb am y maes hwn i Gymru. Serch hynny, byddai angen ymgymryd ag ymchwiliad manwl cyn y gallai cynnig ynghylch datganoli o'r fath hyd yn oed gael ei ystyried. Byddai'r gwaith hwn yn cynnwys archwiliad o oblygiadau datganoli, gan gynnwys y newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n ofynnol a'r effaith bosibl ar y modd y diogelir iechyd pobl yng Nghymru ac ar draws y DU. Ni ddylai unrhyw newidiadau gael eu hystyried a allai niweidio lefel presennol y diogelwch o iechyd pobl.

Cred yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yn rhinwedd ei rôl fel Awdurdod Cymwys Canolog y DU yn y maes hwn, y gallai datganoli'r cyfrifoldeb am orfodi deddfwriaeth ynghylch lles anifeiliaid a hylendid cig olygu bod Cymru'n colli'r manteision sydd ynghlwm â gwasanaeth arolygu/ mesurau rheoli swyddogol presennol Prydain Fawr, sy'n cynnwys:

Safonau a dulliau cyffredin o gyflawni cydymffurfiaeth gan GBB a gorfodi effeithiol ar draws y DU;

Arbedion o ran effeithlonrwydd sy'n deillio o gontractio ar lefel clwstwr sy'n cyd-fynd orau â lleoliadau GBB yn hytrach nag â ffiniau gwledydd; a

Seilwaith wedi'i dargedu - cyllid, caffael, AD a TG - er mwyn hwyluso'r ddarpariaeth rheng flaen.

Serch hynny mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn parhau i adolygu ei strwythur gweithredol ac mae wrthi'n ystyried opsiynau yn dilyn sefydlu'r Grwp Gweithrediadau ar draws y DU.

Bydd Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd 1099/2009 yn berthnasol i'r holl anifeiliaid a gaiff eu lladd mewn lladd-dy, ar fferm neu at ddibenion rheoli clefydau. Bydd yn sicrhau na fydd anifeiliaid (gan gynnwys dofednod a physgod, ond heb gynnwys ymlusgiaid ac amffibiaid) yn dioddef unrhyw boen, gofid neu ddioddefaint diangen. Mae'n rhaid i anifeiliaid (heblaw am bysgod) gael eu lladd mewn ffordd a fydd yn golygu eu bod yn marw ar unwaith neu'n marw ar ôl cael eu stynio.

Mae Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd 1099/2009 yn cydnabod pwysigrwydd hunan-reoleiddio a bydd rhagor o gyfrifoldeb ar y Gweithredwyr Busnesau Bwyd. Serch hynny, mae'n rhaid i broses weithredu archwilio gadarn fod yn ei lle er mwyn sicrhau bod y safonau'n cael eu gweithredu'n gyson yng Nghymru, ar draws y DU ac yn Ewrop. Trwy sicrhau gorfodi a pholisi cyson ar draws ffiniau byddwn yn elwa ar arbedion maint a byddwn yn glir ynghylch cyfrifoldebau deddfwriaethol.

Caiff asesiadau risg eu datblygu a'u defnyddio fel rhan o'r gwaith o weithredu Rheoliadau newydd yr UE sy'n cydnabod Gweithredwyr Busnesau Bwyd blaengar sy'n cydymffurfio ac sydd o fudd iddynt.

Noder: Cafodd darpariaethau Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) 1995 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Yn dilyn hyn cafodd y pwerau eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflawni'r darpariaethau gorfodi ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Goblygiadau Ariannol:** Byddai'r goblygiadau ariannol yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr ymgymerir ag ef os dilynir egwyddor datganoli.

**Medi 2010**